

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022.

Jeremy Miles AS  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
27 Ebrill 2022

## Rhan 1

### 1 Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (“y Rheoliadau”) yn diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrсия Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/1484) (“Rheoliadau 2015”) a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/191) (“Rheoliadau 2018”).

### 2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Ystyriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/79), yn eu cyfarfod ar 8 Chwefror 2022 gan ddyroddi adroddiad yn cynnwys pwyntiau ar rinweddau a phwyntiau technegol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau i fynd i'r afael ag un pwynt a wnaed gan y Pwyllgor. Mae'r Offeryn Statudol yn cael ei ddyroddi'n rhad ac am ddim i bob derbynydd hysbys.

### 3 Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (“Deddf 1998”).
- 3.2 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ragnodir gan y rheoliadau hynny neu odanynt. Mae'r pŵer hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymysg pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.
- 3.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (“Deddf 2004”) wedi darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd wedi darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfredol â'r Ysgrifennydd Gwladol

- 3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi
- 3.6 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau er mwyn rhoi sail ar gyfer cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y Deyrnas Unedig, a myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru. Mae'r rheoliadau cyllid i fyfyrwyr yn cynnwys meini prawf cymhwysra sy'n pennu y gall rhai grwpiau penodol fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu.
- 4.2 Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi'r cyrsiau cymhwysol a'r personau cymhwysol at ddiben adran 5 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 sy'n nodi bod rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad bennu (neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar) derfyn ffioedd mewn perthynas â chyrtsiau cymhwysol ym mhob blwyddyn academaidd. Mae Rheoliadau 2018 yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n cychwyn ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny. Cyrtsiau israddedig llawnamser a rhan-amser yw'r rhain yn bennaf. Mae Rheoliadau 2018 hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018 ac sy'n cael eu trosi wedyn o gyrsiau llawnamser i ran-amser neu ran-amser i llawnamser ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

##### *Diwygio Rheoliadau 2015*

- 4.3 Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2015 i adlewyrchu'r polisi cywir bod Dinasyddion Gwyddelig yn bersonau cynhwysol o dan Rheoliadau 2015 os ydynt yn ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd.

##### *Diwygio Rheoliadau 2018*

- 4.5 Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2018 er mwyn cywiro mater a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Mae Atodlen 4 yn

cyfeirio at fyfyrwr cymwys ond dylai wneud cyfeiriad at fyfyrwr ôl-raddedig cymwys.

## **5 Ymgynghori**

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

### **RHAN 2 – ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL (RIA)**

5.2 Gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddarau is-ddeddfwriaeth ac nad yw hynny yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na'r ffordd y'i cymhwysir mewn unrhyw sefyllfa sydd o dan sylw, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar is-ddeddfwriaeth.